

Trwy e-bost

31 Hydref 2017

Cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Abertawe

Annwyl Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe a swyddogion cefnogi,

Diolch am geisio fy nghyngor ar sut y gallech gymryd camau i fodloni eich amcanion lles drafft. Mae cysylltu'n rheolaidd â'ch swyddogion cefnogi a chwrdd â rhai ohonoch wythnos diwethaf wedi bod yn fuddiol iawn i aelodau o'm tîm er mwyn rhoi dealltwriaeth iddynt o sut rydych yn gweithio gyda'ch gilydd fel BGC, y dull rydych wedi'i ddefnyddio i gynllunio lles a'ch bwriad i gyflawni'r amcanion a chymryd camau mewn ffordd wahanol. Fel y byddant wedi'i drafod â chi, roeddwn yn awyddus i'm cyngor fod yn ddefnyddiol i chi a'r cyd-destun rydych yn gweithio ynddo, felly gobeithiaf eich bod chi hefyd wedi cael budd o'r cysylltiadau rheolaidd hyn a'u bod wedi rhoi peth arweiniad i chi ar hyd y ffordd.

Diolch am rannu copi o'ch cynllun lles drafft gyda'r tîm. Deallaf eich bod wedi cynnal gweithdai a chynnwys dinasyddion ynghylch dyfodol Abertawe er mwyn pennu eich amcanion lles, sef:

- 1. Amcan 1: Byw yn dda, heneiddio'n dda – gwneud Abertawe'n lle gwych i fyw a heneiddio'n dda.**
- 2. Amcan 2: Y blynyddoedd cynnar – sicrhau'r dechrau gorau i bob plentyn.**
- 3. Amcan 3: Gweithio gyda natur – i wella iechyd, cyfoethogi bioamrywiaeth a lleihau ein hól troed carbon.**
- 4. Amcan 4: Cymunedau cryf – grymuso cymunedau gan hyrwyddo balchder ac ymdeimlad o berthyn.**

Mae dwy ran i fy nghyngor – yn gyntaf, eich helpu i ystyried sut gallech gymryd camau i gyflawni'ch amcanion yn effeithiol. Yn ail, yn seiliedig ar eich themâu a'ch amcanion drafft, bydd yn darparu sbardunau, adnoddau a chysylltiadau i'ch helpu i ddangos, drwy eich cynllun lles, eich bod wedi defnyddio'r pum ffordd o weithio a'r saith nod llesiant i gyfeirio'ch camau. Nid mynegi fy marn ar eich amcanion lles yw diben y cyngor hwn. Chi sy'n pennu'r rhain ac yn berchen arnynt, fel BGC ar y cyd.

Byddaf yn eich annog i ddarllen hwn ar y cyd â'm hymateb i'ch asesiad lles. Rwyf yn awyddus i hyn fod yn ymarfer 'bwydo ymlaen' yn hytrach na 'bwydo'n ôl', gan eich helpu i ystyried sut i fynd i'r afael ag asesu a chynllunio lles parhaus. Fel y gwyddoch, cyhoeddais 'Llesiant yng Nghymru: Cynllunio Heddiw ar gyfer Gwell Yfory' yn ddiweddar sy'n tynnu sylw at ganfyddiadau ac argymhellion allweddol ar gyfer pob BGC a chorff cyhoeddus ynglŷn â meysydd newid allweddol sy'n angenrheidiol i wneud penderfyniadau gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bwriedir i'r adnoddau hyn fod o gymorth i chi hefyd.

Mabwysiadu ffyrdd gwahanol o weithio i gymryd camau i fodloni eich amcanion drafft:

Nid yw pennu amcanion a chamau'n fusnes fel arfer. Yn y gorffennol, rydym wedi trafod themâu a blaenoriaethau ac wedi llunio cynlluniau sy'n dangos yr hyn rydym eisoes yn ei wneud. Mae angen ffordd wahanol o weithio er mwyn cyflawni dyheadau'r Ddeddf hon. Mae egwyddorion datblygu cynaliadwy yn ymwneud â'r 'beth' A'R 'sut', h.y. beth ydych chi'n ei wneud i gyfrannu at ein gweledigaeth a rennir o'r saith nod llesiant cenedlaethol? Mae'r nodau'n cydnabod bod datblygu cynaliadwy'n cysylltu'r amgylchedd rydym yn byw ynddo, yr economi rydym yn gweithio ynddi, y gymdeithas rydym yn ei mwynhau a'r diwylliannau rydym yn eu rhannu, â phobl ac ansawdd eu bywydau, felly beth ydych chi am ei wneud yn wahanol gyda'ch gilydd? A, sut mae'r egwyddorion datblygu cynaliadwy yn dylanwadu ar eich camau gweithredu ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr?

Mae'n rhaid i mi bwysleisio bod eich arweinyddiaeth yn ofynnol i fabwysiadu'r ffordd newydd hon o weithio. Gwnes argymhellion yn yr adroddiad 'Llesiant yng Nghymru: Cynllunio Heddiw ar gyfer Gwell Yfory' (tud.53-54) ynghylch llywodraethu partneriaethau, ac awgrymaf eich bod yn eu hystyried yng nghyd-destun Abertawe. Mae'r argymhellion yn cynnwys ystyried sut caiff BGC eu rheoli a'u harwain. Mae'r ffordd y mae eich BGC wedi'i strwythuro ar hyn o bryd, o amgylch Grŵp Craidd a Grŵp Partneriaeth, yn unigryw i Abertawe. Efallai mai dyma'r ffordd orau o weithio i chi, ond mae fy nhîm wedi clywed gwybodaeth anghyson am sut mae'r strwythur hwn yn effeithio ar gynnydd a gwneud penderfyniadau. Mae'n rhaid i mi gwestiynu pa mor ddeinamig y gallwch chi fod wrth wneud penderfyniadau a gweithredu yn eich strwythurau llywodraethu presennol, felly byddwn yn eich cynghori i adolygu eu heffeithiolrwydd o ran cyflawni'r cynllun lles.

Roedd argymhellion eraill yn yr adroddiad yn cynnwys ystyried sut caiff BGC eu cadeirio, pwy sy'n eistedd ar y bwrdd a sut gellir galluogi cydweithio gwirioneddol. Rwy'n awyddus i BGC fod yn fyrddau cynhwysol gyda phrosesau gweithredu a phenderfynu tryloyw. Eto, mae fy nhîm wedi clywed gwybodaeth anghyson o ran ai cael Grŵp Craidd a Grŵp Partneriaeth mawr yw'r ffordd orau o gyflawni hyn. Mae'n amhosib gwneud penderfyniadau'n gyfrifol os oes diffyg eglurder o ran pwy sy'n gwneud beth a phryd a, chan fy mod wedi clywed am ddryswch ynghylch hyn, byddwn yn awgrymu bod risg i barhau fel yr ydych. Fe'ch cynghoraf i gysylltu â'ch holl bartneriaid yn ddi-oed i drafod eu barn am y strwythurau a chynladwyedd y trefniadau hyn. Dylai cyflawni eich cynllun lles drafft fod yn ysgogydd ar gyfer gwneud pethau'n wahanol.

Nodais yn yr adroddiad ei bod hi'n bwysig ein bod yn symud oddi wrth weld BGC fel byrddau a arweinir gan awdurdodau lleol. Dylai fod yn ffordd newydd o weithio, nid yn rhywbeth a gaiff ei arwain gan ddiwylliant neu brosesau un sefydliad. Gall aelodau'r bwrdd, sut mae wedi'i strwythuro, sut a phryd y cynhelir cyfarfodydd a sut y cefnogir y BGC, newid meddylfryd a chaniatáu her iachach i 'fusnes fel arfer'. Er mwyn gwneud hyn mae angen dealltwriaeth o broffesiynau a chymhelliannau eich gilydd fel sefydliadau. Rwy'n falch o glywed eich bod wedi dechrau cynnal cyfarfodydd 'cerdded yn f'esgidiau' gyda phartneriaid y Grŵp Craidd, ond ystyriwch y gwerth y gall sefydliadau eraill ei gyfrannu i'r trafodaethau hyn hefyd.

Mae sut rydych yn mynd â negeseuon o'r BGC yn ôl i'ch sefydliadau eich hunain hefyd yn bwysig o ran cyfathrebu pam mae gwaith y BGC yn bwysig i'ch uwch-dimau rheoli eich hunain a defnyddio'r cynllun lles i herio arferion presennol yn eich adrannau eich hunain. Ynghyd â hyn, bydd angen i chi

hefyd ddangos sut mae pob sefydliad yn cymryd camau rhesymol i arfer ei swyddogaethau i gyflawni amcanion y BGC. Rwyf am weld nad yw gwaith y BGC yn cael ei ystyried fel rhywbeth ar wahân i flaenoriaethau holl gyrff yr aelodau. Mae'r Ddeddf yn gosod saith maes newid: cynllunio corfforaethol, cynllunio ariannol, cynllunio gweithlu, caffael, asedau, rheoli perfformiad a risg. Yn aml, nid yw swyddogion yn deall gwaith y BGC yn y meysydd gwaith hyn, ond eto rhain yw'r gweithgareddau sefydliadol craidd lle byddai defnyddio'r pum ffordd o weithio yn sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n fframio sut rydych yn gweithio.

Mae'n dilyn felly bod angen i bob un ohonoch, fel aelodau'r BGC, gydnabod cydlynu'r gwaith hwn. Rwy'n deall bod arweinwyr sefydliadol, arweinwyr amcan ac arweinwyr prosiect wedi cael eu neilltuo i'r gwaith hwn. Mae gennyf ddiddordeb mewn sut caiff BGC gwahanol eu cefnogi ac mae'n ymddangos pan fydd cefnogaeth yn amlasiantaethol, gydag adnoddau priodol ac ymrwymiad gwahanol bartneriaid, daw cydweithio ac integreiddio ar draws adrannau a strwythurau'n haws. Byddwn yn eich annog i ystyried pa mor effeithiol mae arweinwyr sefydliadol ac arweinwyr amcan wedi bod hyd yn hyn – mae trafodaeth ynghylch sut mae'r broses hon wedi mynd rhagddi yn rhywbeth rwy'n annog pob BGC i fyfyrio arni. Er enghraifft, mae rhai BGC eisoes yn mabwysiadu trefniadau gweithio agosach, tîm rhithiol amlasiantaeth gydag uwch-arweinydd neu secondiadau mwy ffurfiol a chydleoli. Mae sawl adnodd a allai fod o ddefnydd wrth ystyried hyn, megis [Designing Multi-Agency Partnerships; Leading Culture Change](#) a [Stepping up: a framework for public sector leadership on sustainability](#). Bydd hyn yn gofyn eich bod chi, pobl mewn rolau arweinyddiaeth, yn chwarae eich rhan a bod yn ddewr wrth ysgogi'r newidiadau y mae eu hangen.

O ganlyniad, yn aml mae angen ymagwedd wahanol er mwyn addasu eich ffyrdd o weithio. Mae fy nhîm wedi bod yn datblygu 'Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol' mewn partneriaeth â'r New Economics Foundation, i gynorthwyo gyda meddwl. Diben y fframwaith hwn (a fwriadwyd yn wreiddiol ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud ag isadeiledd) yw helpu cyrff cyhoeddus i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel fframwaith ar gyfer meddwl wrth ddatblygu prosiectau; gellir hefyd ei ddefnyddio i adolygu cynnydd wrth i'r prosiect ddatblygu. Rydym yn gweithio ar sicrhau bod y fframwaith yn berthnasol i ystod ehangach o brosiectau, gan gynnwys datblygu polisiau/rhaglenni, a bydd ar gael yn fuan. Byddai diddordeb gennym glywed unrhyw adborth o ran pa mor ddefnyddiol ydyw i'ch gwaith.

Mae [Pensaerniaeth Dyfodol Cynaliadwy Academi Wales](#) yn mynegi'n gryno sut mae angen newid ymddygiadau arweinyddiaeth yn unol â'r egwyddorion. Mae angen i chi roi amser a chyfle i chi'ch hunain fel BGC i gwestiynu a yw ymagweddau presennol at gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yn addas i'r dyfodol ac archwilio'r hyn sy'n achosi pwysau a thensiwn allweddol wrth gyflwyno'ch amcanion. Yn ymarferol, rwy'n cynghori BGC i gynnal cyfarfod penodol neu greu sesiynau er mwyn gallu trafod pob un o'ch amcanion drafft mewn fforwm gonest. Yn gyffredinol, ar gyfer pob un o'ch amcanion drafft, hoffwn ddeall yr hyn y mae'r camau yn ei olygu i Abertawe, a sut mae hyn yn ffordd wahanol o weithio i'r hyn rydych wedi'i wneud yn y gorffennol.

Rwy'n argymhell y bydd angen i chi ddangos sut mae eich BGC wedi ystyried y canlynol mewn perthynas â'ch holl amcanion:

- **Tymor hir:** Deallaf fod eich gweithdai wedi ystyried senarios yn y dyfodol ar gyfer pob un o'ch blaenoriaethau cychwynnol ar gyfer Abertawe. Byddai gallu gweld yr hyn rydych yn ei ddeall am y tueddiadau, y cyfleoedd, y risgiau a'r senarios posib yn y tymor hir ar gyfer y mater yn cael ei groesawu. Ydych chi wedi archwilio eu heffaith ar eich camau? A oes bylchau yn eich data neu'ch dealltwriaeth ar hyn o bryd? Pa wybodaeth am ragolygon neu dueddiadau yn y dyfodol y mae ei hangen arnoch er mwyn deall y mater hwn yn well? Pa allu, hyder ac arbenigedd y mae eu hangen arnoch i lenwi bylchau mewn gwybodaeth?

Mae eich cynllun lles drafft yn edrych rhyw saith mlynedd i'r dyfodol yn unig ar hyn o bryd. Fy rôl statudol yw gweithredu fel gwarchodwr cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion ac annog cyrff cyhoeddus i ystyried effaith tymor hir yr hyn maent yn ei wneud yn fwy. Rwy'n cynghori cyrff cyhoeddus i feddwl y tu hwnt i'r 5, 10 neu'r 15 mlynedd nesaf a meddwl am genedlaethau'r dyfodol mewn 25, 30 i 35 mlynedd.

Er mwyn llywio'r camau gweithredu rydych yn eu cymryd, bydd angen i chi fapio ac ystyried tueddiadau'r dyfodol yn ddigonol ar gyfer eich holl amcanion. Mae fy swyddfa yn gweithio gydag eraill i wella gallu yn y maes hwn a, fel y gwŷr eich tîm cefnogi, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ychwanegu at adnoddau adroddiad 'Tueddiadau'r Dyfodol' y dylech wneud y defnydd mwyaf ohonynt drwy gael mynediad iddynt drwy Objective Connect neu drwy gysylltu â David Thomas. Mae'r adroddiad 'Now for the long-term' gan Ysgol Oxford Martin yn dangos tueddiadau byd-eang a chenedlaethol ar gyfer y dyfodol y mae angen i bob un ohonom ymateb iddynt wrth ymgymryd â datblygu cynaliadwy.

- **Ataliaeth:** Wrth ystyried y mater hwn, oes gennych chi ddealltwriaeth o'r hyn rydych yn ceisio ei atal? Pa achosion sydd wrth wraidd y mater a phryd a ble fyddai'r pwynt gorau i ymyrryd? Ydych chi'n glir o ran pa fath o ataliaeth sydd ei hangen: ataliaeth sylfaenol h.y. ceisio atal rhywbeth cyn iddo ddigwydd; ataliaeth eilaidd h.y. atal rhywbeth rhag gwaethygu; neu ataliaeth drydyddol h.y. lliniaru effaith rhywbeth a chanddo effeithiau parhaus. Dyma'r gwahaniaeth rhwng annog rhywun i wisgo helmed beic (sylfaenol - atal niwed i'r pen cyn iddo ddigwydd); gosod rhywun yn yr ystum adfer os yw wedi cwmpo oddi ar ei feic (eilaidd - atal niwed rhag gwaethygu) a chwmsela yn dilyn y ddamwain (trydyddol - helpu anafiadau parhaus rhag gwaethygu).

Nid yw llawer o BGC wedi defnyddio'u hasesiadau i ddeall yn llwyr y sefyllfa bresennol a graddfa a natur yr ymateb sy'n ofynnol. Rwy'n gwerthfawrogi efallai nad ydych yn gwybod beth yw'r darlun cyfan eto, ond rwyf am weld pob BGC yn archwilio sut mae'n torri cylchredau ac yn ymchwilio'n ddyfnach i ddata i weld y negeseuon sydd ymhlyg ynddo i ddeall achosion ac effeithiau materion a thueddiadau allweddol yn well er mwyn llywio'ch camau.

- **Cydweithio:** Rwy'n deall eich bod yn cydweithio'n fwy ar draws ffiniau awdurdodau lleol a bod gennych gefnogaeth ranbarthol. Fel yr wyf eisoes wedi argymhell, dyma gyfle amserol i adolygu aelodaeth wadd y BGC ac ystyried pwy yw'r bobl 'anarferol' y mae'n bosib y bydd angen i chi weithio gyda nhw i gyflawni eich amcanion. Mae'n bwysig bod y bobl sy'n eistedd o amgylch bwrdd y BGC yn gallu cyfrannu'r ystod orau o fewnwelediadau, heriau adeiladol, data ac atebion i'r BGC. Sut bydd hyn yn gweithio rhwng y Grŵp Craidd a'r Grŵp Partneriaeth? Oes gennych chi'r bobl gywir o amgylch y bwrdd ac ar y lefel gywir i wneud penderfyniadau ynghylch mater? Ydy pobl yn glir o ran eu rolau? Â phwy arall y gallai fod angen i chi gydweithio er mwyn deall hyn yn well?

Wrth gyflawni'r camau, sut gallai'ch sefydliadau gydweithio? Bydd angen i chi ddangos sut mae eich BGC yn ystyried y camau y mae angen i chi eu cymryd gyda'ch gilydd ac ar draws ffiniau sefydliadol er mwyn cyflawni'ch amcanion yn effeithiol. Gallai hyn gynnwys cydleoli staff, chwalu strwythurau traddodiadol, trefnu cyfnewid swyddi a secondiadau ac, yn bwysicaf oll, rannu adnoddau. Byddaf am weld sut rydych wedi ystyried y buddion hyn a sut bydd y camau y byddwch yn eu cymryd yn eich helpu i gydweithio.

- **Integreiddio:** Ar gyfer pob amcan, sut ydych chi am osgoi'r arfer o wneud rhywbeth sy'n bodloni'r amcan yn unig ac, yn hytrach, ddangos eich bod yn cymryd camau sy'n mwyafu eich cyfraniad i bob un o'r nodau? Rwy'n dweud wrth bob BGC i ystyried yn fwriadol ac yn eglur y cysylltiadau rhwng eich amcanion i helpu i lywio eich penderfyniadau am y camau mwyaf effeithiol. Yn hytrach nag edrych ar y mater hwn mewn modd traddodiadol a chyffredinol, ydych chi wedi edrych ar ddiffiniad pob un o'r nodau i ehangu'ch dealltwriaeth o les ar gyfer y mater hwn a'r cyfleoedd a allai fod ar gael ar gyfer cyflawni'r nodau hyn drwy bob un o'ch amcanion? Pa mor dda ydych chi'n deall y cyfraniad y mae eich sefydliad yn ei wneud i'r amcan hwn ar hyn o bryd? Ac ydych chi'n deall pa mor wahanol yw'r cyfraniad y bydd angen i chi ei wneud i'r amcan hwn wrth fynd ymlaen?

Sut gallwch chi gynllunio'r hyn sy'n digwydd mewn mannau eraill yn eich sefydliadau, y strategaethau a'r cynlluniau yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, i gysylltu ac arwain gydag eraill ar gyflawni'r amcan hwn? Deallaf eich bod wedi cydnabod y berthynas rhwng eich bwrdd a'r Bwrdd Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles rhanbarthol. Mae integreiddio'n golygu sicrhau bod y partneriaethau eraill yn deall gwaith ei gilydd ac yn cyfrannu ato. Ni ddylid ystyried y BGC fel rhywbeth ar wahân. Ydych chi wedi ystyried eto y rhwystrau a'r tensiynau sydd wedi codi a pha gamau y gallwch chi (neu eraill) eu cymryd i'w goresgyn? Pwy arall sydd ei angen o amgylch bwrdd y BGC i'ch helpu i gysylltu penderfyniadau a gwella lles ar gyfer y mater hwn?

- **Cynnwys:** Awgrymodd fy ymateb i'ch asesiad lles y dylech adeiladu ar y gwaith cynnwys a wnaed hyd yn hyn fel BGC. Rwyf nawr am weld ffofws amlwg gan bob BGC o fynd y tu hwnt i'r ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu ad-hoc arferol. Bydd angen i BGC ddangos sut maent yn ceisio deall profiadau pobl yr ardal o fywyd go iawn a sut mae hyn yn dylanwadu ar eich gweithredoedd. Sut ydych chi nawr yn mynd ati i chwilio am ffyrdd gwell o gynnwys

pobl mewn penderfyniadau? Sut gallwch chi gydweithio ag aelodau o'r cyhoedd i ddilyn y camau hyn? Fel gyda Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru, pa opsiynau sydd i gynnwys pobl gyda phrofiad o fywyd go iawn ar fyrddau ac mewn grwpiau partneriaeth?

Dylai pob BGC ystyried y cwestiynau hyn, ond rwy'n gwerthfawrogi bod pob BGC wedi cymryd ymagwedd wahanol at lunio ei amcanion lles ac yn cyflwyno ei gynllun lles yn y cyd-destun sy'n addas iddo. Mae ail ran fy nghyngor yn ceisio'ch helpu i ddangos, drwy eich cynllun lles, eich bod wedi defnyddio'r pum ffordd o weithio a'r saith nod llesiant i gyfeirio'ch camau.

Cyngor ar sut gallech gymryd camau i gyflawni'ch amcanion drafft

O'r sgysiau rheolaidd yr ydych wedi eu cael gyda fy nhîm, rwy'n gwybod bod eich swyddogion cefnogi wedi gweithio'n galed dros yr haf i fanteisio ar ganfyddiadau eich asesiad, cyfuno negeseuon allweddol a llunio modelau rhesymeg ar gyfer pob un o'ch amcanion. Gobeithiaf fod hyn wedi rhoi syniad i chi o'r cydweithredu y mae angen i chi ei wneud i gyflawni'ch amcanion. Awgrymaf eich bod nawr yn ystyried sut gallwch gymryd camau gweithredu sy'n mwyafu'ch cyfraniad i'r holl nodau llesiant. Gofynnwch i'ch hunain – beth arall y gallwn ni ei wneud? Fe'ch cynghoraf i edrych ar ddiffiniadau cyfreithiol y saith nod llesiant a chwilio am ffyrdd sy'n mwyafu'ch cyfraniad iddynt ar gyfer pob amcan. Drwy archwilio cysylltiadau â'r nodau, byddwch yn cael darlun mwy cyfannol o'r mater rydych yn ceisio'i ddatrys ond, yn ogystal, gallwch gynyddu'r ystod o adnoddau a chyfleoedd y gallwch eu defnyddio i'ch helpu i ddod o hyd i atebion.

- ***Amcan 1: Byw yn dda, heneiddio'n dda – gwneud Abertawe'n lle gwych i fyw a heneiddio'n dda.***

Nid yw lles yn ymwneud â'n hiechyd yn unig, ond hefyd ein bywydau cymdeithasol, ein hymdeimlad o berthyn, ein hamgylchfyd adeiledig a naturiol, ein hincwm a'n bywyd cymunedol – y mae pob un ohonynt yn bethau ehangach sy'n gallu effeithio ar ein hiechyd. Wrth gymryd camau i gyflawni'r amcan hwn, byddwn yn eich cynghori i edrych ar asedau Abertawe – cyflwr yr amgylchedd naturiol, ysbryd cymunedol a threftadaeth yr ardal. Yn aml ni fydd pobl yn gwella eu hiechyd am fod gwasanaethau cyhoeddus yn dweud wrthynt wneud hynny ond oherwydd eu bod yn sylweddoli eu hunain werth eu bywydau a phwysigrwydd aros yn iach yn hwy. Dim ond drwy gynnwys pobl yn gyson i ddeall yr hyn sydd o bwys iddynt y gallwch ddechrau dylanwadu ar ymddygiad. Mae gennych rôl wrth ystyried pa gyfleoedd allai fod eu hangen ar bobl i wella eu hiechyd eu hunain, y gwasanaethau y mae eu hangen ar bobl i wella o waeledd a chreu'r amgylcheddau adeiledig cywir i wella iechyd a lles pobl.

Mae'r model rhesymeg ar gyfer yr amcan hwn yn awgrymu'n synhwyrol fod hyn yn ymwneud ag ymagwedd at gwrs cyfan bywyd. Mae'r amcan drafft hwn yn gysylltiedig â'ch rhai eraill, sef: cael dechrau da mewn bywyd, amgylcheddau naturiol cadarn a chydlyniant cymunedol. Byddwn yn eich cynghori i fod yn fwy eglur o ran sut rydych yn gwneud y cysylltiadau hyn ac wrth asesu'n feirniadol pa mor integredig yw eich gwasanaethau, gan archwilio'r tensiynau rhwng polisiau a chyflwyno. Diben y pum ffordd o weithio yw rhoi ffrâm i chi ystyried materion o'r fath gyda'i gilydd. O ran poblogaeth sy'n heneiddio ac anghydraddoldebau iechyd, ystyriwch a yw darpariaeth bresennol yn briodol i reoli'r broblem gynyddol hon. Ar ba feysydd y gallai fod angen mwy o gamau gweithredu ar

y cyd? Ar hyn o bryd, prin y mae'r gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd yn gallu ymdopi â'r galw ac, yn anffodus, mae llawer yn ystyried modelau traddodiadol o 'ymyriadau brys' i ymdrin â hyn. Dyma lle dylai'r pum ffordd o weithio fod yn herio'ch ffordd o feddwl - sut gallwch fynd i'r afael â'r broblem hon mewn modd creadigol? Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn darparu cyfle deddfwriaethol yma, felly hoffwn weld dylanwad clir gan y BGC ar Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd i sicrhau ei fod yn cymryd camau i gyflawni'ch amcanion.

Mae'n galonogol eich bod yn ceisio deall pa effaith y mae eich sefydliadau eich hunain yn ei chael ar y flaenoriaeth hon drwy, er enghraifft, annog y gweithlu i gynnal eu lles. Rwy'n credu bod BGC yn awyddus i symud o siarad i wneud, felly byddwn yn eich cynghori i edrych ar y gwelliannau cyflym y gallwch eu cyflawni yma a gwneud rhai newidiadau cyflym. Mae'r saith maes newid yn y ddeddf yn fan cychwyn ar gyfer yr effaith y gallwch ei chael. Y rhain yw cynllunio corfforaethol, cynllunio ariannol, cynllunio'r gweithlu, caffael, asedau, rheoli perfformiad a risg, sef y gweithgareddau sefydliadol craidd lle byddai defnyddio'r pum ffordd o weithio'n sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n fframio sut rydych yn gweithio. Fel gwasanaethau cyhoeddus, rydych yn cyflogi rhan helaeth o'r boblogaeth a bydd gan lawer o'ch gweithwyr deuluoedd yn byw yn yr ardal hefyd. Byddwn hefyd yn eich cynghori i werthfawrogi'r dylanwad y gallwch ei gael ar sefydliadau eraill.

Mae llawer o ffyrdd gwahanol o gymryd camau i wella lles gweithwyr ac mae enghreifftiau ar draws y byd o ymagweddau blaengar. Mae hyn yn gwneud synnwyr ariannol (mae cost salwch sy'n ymwneud â'r gwaith yng Nghymru yn o leiaf £500m y flwyddyn) ac mae hefyd yn gwella lles preswylwyr Abertawe. Mae The Sunday Times yn llunio [rhestr flynyddol o'r 100 cwmni gorau](#) i weithio iddynt gyda'r gallu i hidlo yn ôl y rhai sydd orau ar gyfer 'lles', ac mae gwledydd fel [Sweden](#) wedi bod ar y blaen i Brydain o ran sut maent yn sicrhau bod eu staff yn iach ac yn gweithio hyd eithaf eu gallu. Yn agosach i gartref, mae'r cydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Caerdydd - '[Cymru Iach ar Waith](#)' - yn llawn adnoddau a chanllawiau i'ch helpu i gydweithio i greu gweithlu iach. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi sefydlu '[Hwb Iechyd a Chynladwyedd](#)' cenedlaethol i gydlynu ei waith ei hun mewn perthynas â'r Ddeddf a, thrwy eich cynrychiolydd BGC, efallai y byddai'n ddefnyddio i chi gysylltu â'r tîm cenedlaethol am ragor o dystiolaeth a gwybodaeth. A oes cyfleoedd i ddechrau cynlluniau sy'n dod â gweithwyr ynghyd ac yn cyfrannu at y nodau Llesiant? Er enghraifft, mae rhai sefydliadau wedi cyflwyno cynlluniau plannu coed a chadw gwenyn sy'n cyfrannu at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, Cymru gydnerth a Chymru iachach. Mae newid yn aml yn cael effaith pan fydd pobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol ehangach gyda'i gilydd; er enghraifft, canfu adroddiad 'Behaviour Change is a Team Sport' gan Nudjed fod dod â phobl ynghyd yn cynyddu patrymau ymarfer corff. Mae eu gwaith wedi cynnwys gweithio'n llwyddiannus gyda mamau ifanc yng nghymoedd de Cymru i'w hannog i wneud mwy o ymarfer corff.

Profwyd bod gan ddysgu gydol oes fuddion ar gyfer lles meddyliol a chorfforol pobl, yn ogystal â'u lles cymdeithasol. Mae cyfle go iawn yma i chi ystyried sut rydych yn mwyafu'ch cyfraniad i'r nodau Llesiant. Sut gallwch annog gweithgareddau sy'n hyrwyddo celf, diwylliant, dysgu'r Gymraeg, gofalu am gynefinoedd naturiol, creu mentrau tyfu bwyd cymunedol, er enghraifft, sy'n helpu i wella lles pobl? Gan edrych i'r tymor hir, sut gall y gweithgareddau hyn atal peth o'r gwaeledd y gellir ei atal y mae pobl yn ei ddioddef sy'n amharu ar eu hannibyniaeth? Gallai cydweithio gyda'r cyrff cyhoeddus cenedlaethol sy'n destun y ddeddf - megis Cyngor y Celfyddydau, Chwaraeon Cymru ac Amgueddfa

Cymru - fod o fudd yma. Rhowch wybod os hoffech gysylltu â'r unigolion perthnasol yn y sefydliadau hyn. Mewn perthynas â'r boblogaeth hŷn, mae llawer o enghreifftiau da o brosiectau sy'n ceisio dod â phobl ynghyd i ddysgu sgiliau newydd, cymdeithasu a meithrin eu gwydnwch yn ddiweddarach yn eu bywydau - fel [Men's Sheds Cymru](#) - ar waith ledled Cymru y gallai'r BGC eu hannog a'u cefnogi.

Mae gwaith y [Comisiynydd Pobl Hŷn](#) yn arbennig o ddefnyddiol wrth archwilio'r camau y gallech eu cymryd i fodloni'r amcan hwn ac mae hyn yn cynnwys ei harweiniad diweddar i BGC a oedd yn sôn wrth wasanaethau cyhoeddus am ba mor bwysig yw'r boblogaeth hŷn o ran gofalu, gwirfoddoli a chyfrannu at yr economi. Mae ymchwil gan [Heneiddio'n Dda Cymru](#) wedi dangos hyn ac mae'n awgrymu bod unigrwydd ymhlith pobl yn ymwneud â pha mor gysylltiedig y mae pobl yn teimlo yn eu cymunedau'n gorfforol a theimlo bod pwrpas iddynt mewn cymdeithas. Mae'r adroddiad hwn gan y [Young Foundation](#) yn rhoi ysbrydoliaeth drwy ei ymagwedd 'Innovating better ways of living late in life', sy'n herio'r seilos traddodiadol yr ydym yn gweithio ynddynt. Gall creu cymunedau ac amgylcheddau hyblyg sy'n croesawu'r henoed atal yr angen am ofal cymdeithasol, unigrwydd ac iechyd gwael a damweiniau yn y cartref.

Mae gennych gyfrifoldeb ar y cyd dros gynllunio, tai, isadeiledd a'r amgylchedd. Mae gan Gymru gyfle i ddatblygu mewn ffordd sy'n ymdrin â newid demograffig yn well, ond mae angen i bob un ohonom fod yn ddewr wrth herio'r ffordd y gwneir pethau ar hyn o bryd. Mae rhaglenni fel menter [Dinasoedd sy'n Gyfeillgar i Oed Sefydliad Iechyd y Byd](#) wedi annog a chydabod y dinasoedd hynny sydd wedi gwneud eu hunain yn fwy cyfeillgar i oed drwy addasu adeiladau, trafndiaeth a rheolau cynllunio sy'n galluogi pobl hŷn i aros yn iach ac yn gysylltiedig â'r pethau sydd o bwys iddynt am fwy o amser. Mae [Laguna Woods](#), y ddinas arbennig gyntaf ar gyfer pobl hŷn yn yr UD, a maestref Marjala yn y Ffindir yn enghreifftiau o ddyluniad sy'n addas i alluoedd amrywiol. Yn ogystal â meddu ar gyfrifoldebau dros gynllunio a dylunio isadeiledd, gallech annog cyd-drigo, tai â chymorth a rhannu cartrefi. Mae enghreifftiau arloesol byd-eang o gynlluniau fel hyn, megis [myfyrwyr yn byw](#) mewn cartrefi nyrsio am ddim yn gyfnewid am gymdeithasu â'r preswylwyr hŷn a darparu gofal sylfaenol ar eu cyfer. Mae Awstralia a Seland Newydd wedi cyflwyno [cynlluniau rhannu cartrefi](#) a, fel rhan o strategaeth ddemograffig y llywodraeth genedlaethol, mae'r [Almaen wedi cyflwyno tai rhyngenedlaethol ar gyfer pobl hŷn a theuluoedd ifanc mewn angen](#). Yn Singapore, rhoddir grant gwerth \$50,000 i bobl ifanc os ydynt yn symud o fewn 1km i'w neiniau a'u teidiau oedrannus. Mae'r rhain i gyd yn fentrau sydd wedi profi eu bod yn effeithiol.

Yn ein heconomi o rannu, a oes datrysiadau technegol ar-lein eraill i atal arwahanrwydd cymdeithasol drwy rannu ceir neu gludiant cymunedol sy'n gysylltiedig â chyfryngau cymdeithasol? Mae'r cysyniad '[hyperbentref](#)' a ddatblygwyd gan FutureScape yn dychmygu pentrefi wedi'u cysylltu gan eu hasedau, sy'n [annog pobl i fyw mewn cymunedau gwledig i wneud y mwyaf o dechnoleg](#). Sut ydych chi wedi meddwl am bosibiliadau tymor hir defnyddio datrysiadau technolegol ar gyfer y mater hwn? Sut gall pobl hŷn ddod yn fwy cysylltiedig â chyfleoedd cymdeithasol a gwirfoddoli? Ydy gwirfoddolwyr yn gysylltiedig â gwaith y BGC ar hyn o bryd i'ch helpu i ystyried sut gallant eich helpu i fodloni'ch amcanion? Mae [Cyngor Cymuned Solfach](#) yn Sir Benfro'n enghraifft ddiddorol o sut mae gwirfoddolwyr a phreswylwyr hŷn wedi elwa o gynllun i leihau unigrwydd a gwella lles. Awgryma peth ymchwil mai [5% yn unig o bobl dros 65 oed](#) sydd ag unrhyw fath o gyswllt strwythuredig â

phobl ieuengach. Gwelir bod gan brosiectau rhyng-genedlaethol fuddion i'r hen a'r ifanc, gyda phobl hŷn ac ieuengach yn cymryd rôl y mentor. Sut gallwch gydweithio i greu mwy o gyfleoedd i bobl ddod ynghyd? Sut gall mwy o gyfranogaeth wella iechyd pobl hŷn yn eich ardal?

Rydych wedi nodi sut mae lles economaidd yn effeithio ar iechyd a chydaddoldeb. Mae'r Fargen Ddinesig yn amlwg yn cynnig cyfle cyffrous i'r rhanbarth ac mae ymarferion i gynnwys y rheiny sy'n gysylltiedig â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r ddeddf yn galonogol. Dylech geisio integreiddio'r gwaith hwn â gwaith y BGC gan eich bod yn chwarae rôl ganolog wrth lywio'r cyfleoedd hyn fel rhywbeth a fyddai'n elwa o'r buddsoddiad. Byddwn yn eich cynghori, fel pobl mewn rolau arweinyddiaeth, fod angen i chi ddylanwadu ar y trafodaethau presennol gyda lles economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol pobl ar draws y rhanbarth mewn cof. Dyma gyfle economaidd cadarnhaol, ond sut gallwn gydbwysu ein cyfrifoldebau i ddatblygu dinas-ranbarth sy'n gynaliadwy ac yn rhoi pobl wrth wraidd ein gwaith? Mae fy llythyr at y rheiny sy'n gysylltiedig â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn rhoi cyngor pellach ac ymatebais yn ddiweddar i adroddiad gan y Dr Mark Lang a'r Athro Terry Marsden "Re-thinking Growth: Toward the Well-being Economy".

Rwy'n annog pob BGC i rannu syniadau a chydweithio â'i gilydd os ydynt wedi gosod amcanion tebyg. Mae BGC eraill sy'n edrych ar hyn yn cynnwys Castell-nedd Port Talbot, Caerdydd, Conwy/Sir Ddinbych, Sir Fynwy a Phowys.

- ***Amcan 2: Y blynyddoedd cynnar - sicrhau'r dechrau gorau i bob plentyn.***

Mae'r rhan-fwyaf o BGC wedi llunio amcanion tebyg i hwn, gan gydnabod pwysigrwydd buddsoddi yng nghenedlaethau'r dyfodol. Rwyf wedi gofyn i bob BGC sydd wedi gosod amcan tebyg: beth sy'n mynd i newid ar bob lefel i gyflawni hyn? Sut bydd gwasanaethau ar gyfer darpar rieni a theuluoedd yn newid yn lleol? Pa dystiolaeth leol fyddwch chi'n ei defnyddio i ddeall y modelau gwasanaeth llwyddiannus a'r ymyriadau ataliol sy'n gweithio? Sut byddai canolbwyntio ar atal profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) fel BGC yn gweithio mewn gwirionedd ar gyfer eich sefydliadau a'ch gwasanaethau? Pwy allai fod angen i chi ei gynnwys i ddeall hyn yn well? Pwy sydd angen bod o amgylch y bwrdd i weithredu hyn?

Ar hyn o bryd, yn aml ni chaiff gwasanaethau eu sefydlu mewn ffordd a fyddai'n cyflawni'r amcan hwn. Rydym yn gweithredu mewn seilos; mae'n well gennym ganolbwyntio ar ein blaenoriaethau nag ar y person. O ganlyniad, rydym yn ymdrin â phobl mewn categorïau trefnus o 'ddefnyddwyr gwasanaeth' - megis 'dioddefwr cam-drin domestig', 'tramgwyddwr ymddygiad gwrthgymdeithasol', 'camddefnyddiwr sylweddau', 'tenant problemus' - sy'n aml yn creu rhwystrau i bobl gael cyfle neu ganlyniad cyfartal. Mae'r ymagwedd hon yn golygu ein bod yn methu cysylltu materion, yn methu integreiddio ac yn methu gweld arwyddion sefyllfa sy'n gwaethygu. Rwyf wedi awgrymu nad yw sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau yn fater 'iechyd' neu 'blynyddoedd cynnar' yn unig. Fel mae eich asesiad lles yn nodi, mae cam-drin domestig, afiechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau yn parhau i fod yn heriau sylweddol i wasanaethau yn Abertawe. Rydym yn gwybod bod y rhain yn effeithio ar blant gyda chylchredau'n parhau i'r genhedlaeth nesaf, fel a welwyd yng ngwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE).

Mae'n rhaid ystyried ACE felly fel cyfrifoldeb y system gyfan, nid o ran ymwybyddiaeth yn unig ond o ran sut mae'r system yn gweithredu. Mae eich model rhesymeg yn dechrau esbonio hyn, ac un o'ch prif sbardunau yw 'mae gwasanaethau cefnogi o safon uchel ac wedi'u hintegreiddio'n dda'. Byddwn yn argymhell bod angen i'ch camau i gyflawni'r amcan hwn ddilyn yr un drefn. Mae rhannu gwybodaeth a gwaith sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn arbennig o bwysig. Mae Nesta a'r Alliance for Useful Evidence wedi cyhoeddi 'Using Research Evidence' fel arweiniad i gyrff cyhoeddus i annog hyder mewn cymryd ymagweddau newydd; ymyriadau byr a chyflym gan unigolion wedi'u grymuso.

Ond er bod gwneud pobl, a'r rheiny sy'n gweithio gyda nhw, yn ymwybodol o'r arwyddion a'u galluogi i fabwysiadu ymagwedd â dealltwriaeth o drawma yn bwysig, rwyf am weld sut rydych yn bwriadu mynd i'r afael â gwasanaethau'n gyffredinol. Mae'n bwysig eich bod yn ystyried pa mor dda mae'r gwasanaethau presennol yn ymateb i deuluoedd lle mae ACE yn ffactor a ph'un a ydynt yn addas at y diben o ran atal profiadau niweidiol parhaus i blant a theuluoedd. Byddai defnyddio'r pum ffordd o weithio gyda'r mater hwn yn golygu y byddai gwasanaethau i deuluoedd ym meysydd cyfiawnder troseddol, tai, gwasanaethau cymdeithasol, blynyddoedd cynnar, camddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig ac eraill yn integredig ac yn effeithiol wrth atal sefyllfa rhag gwaethygu a hefyd yn gyfarwydd â phrofiadau pobl o fywyd go iawn a dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio iddynt a'r hyn nad yw'n gweithio.

Mae Alyson Francis, Cyfarwyddwr Hyb Cymorth ACE, wedi gweithio gyda fy swyddfa'n ddiweddar i ysgrifennu atoch yn amlinellu nad yw ACE yn rhywbeth arall i'w wneud ond, yn hytrach, yn gyfle i ailystyried sut rydym yn cyflwyno gwasanaethau gyda'n gilydd sy'n gwneud synnwyr i'r teuluoedd sy'n eu derbyn. Gallai'r Hyb Cymorth ACE hefyd weithredu fel man canolog i BGC rannu arferion gan fod bron pob BGC yng Nghymru wedi trafod y blynyddoedd cynnar, plant ac ACE yn eu hamcanion a'u camau drafft. Rwyf i ac Alyson Francis hefyd ar y panel ar gyfer gweminar Cyfnewidfa Arfer Da Cymru ar ddeall ACE ar 7 Tachwedd a allai fod yn ddefnyddiol i chi wrth ystyried eich camau ar gyfer yr amcan hwn.

Mae costau'r dechrau gwaethaf mewn bywyd yn anferthol, i fywyd yr unigolyn ac i wasanaethau cyhoeddus. Amcangyfrifir bod gwasanaethau ymyrryd hwyr i bobl ifanc yn costio £17bn y flwyddyn i Gymru a Lloegr (6bn ar ddiogelu ac amddiffyn plant, £5.2bn ar drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, £3.7bn ar anweithgarwch economaidd ieuenctid, £680m ar absenoldebau ysgol a gwaharddiadau, £610m ar anafiadau a phroblemau iechyd meddwl plant, a £450m ar gamddefnyddio sylweddau ieuenctid. Rwyf am weld bod eich sefydliadau yn ei gydnabod fel rhan o'u cyfrifoldebau i gyd i gydweithio i atal canlyniadau gwael. Mae gwaith ar y 1,000 Diwrnod Cyntaf gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos sut gall buddsoddi ym mywyd plentyn o'r cychwyn cyntaf dorri cylchredau a bod o fudd i'w les tymor hir. Sut gallai gwasanaethau lleol newid os ydych yn dargyfeirio buddsoddiad?

Gall anfantais mewn bywyd cynnar gael effeithiau parhaol ar les plant a phobl ifanc a gall effeithio'n sylweddol ar eu rhagolygon o gael dyfodol ffyniannus, iach, diogel a chymdeithasol weithgar. Mae plentyndod yn gyfle allweddol ac rwyf wedi bod yn gweithio gyda'r Comisiynydd Plant i gynghori y dylai cyrff cyhoeddus a BGC ganolbwytio mwy ar hawliau a lles plant yn eu gwaith asesu a chynllunio lles parhaus. Rydych eisoes wedi cydnabod hyn yn eich camau drafft a byddwn yn eich annog i archwilio datblygu ffocws ar bolisi hawliau plant gan alluogi plant i ddysgu am eu hawliau a'u

grymuso i chwarae rôl weithgar yn eu cymunedau. I gefnogi ein gwaith, mae pecyn cymorth yn cael ei brofi a bydd ar gael cyn diwedd y flwyddyn. Byddai swyddfa'r Comisiynydd Plant yn fodlon cynghori ar gynnwys plant a phobl ifanc a chymryd ymagwedd hawliau plant at sicrhau lles cenedlaethau'r dyfodol. Dylai cynnwys plant a phobl ifanc wrth ddeall sut dylech fynd i'r afael â hyn fod wrth wraidd eich gwaith.

Un o ddibenion BGC yw herio ffiniau gwasanaethau presennol. Mae plant yn byw mewn teuluoedd, sy'n byw mewn cymunedau ac maent yn defnyddio llawer o wasanaethau – nid yw teuluoedd yn cydnabod yr un gwahaniaethau rhwng sefydliadau â ni. Mae cynnwys pobl a dealltwriaeth wrth wraidd deall a herio'r system gyfan; dim ond drwy ddeall profiadau bywyd pobl y gallwn ddylunio gwasanaethau sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae'r astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn gan Locality yn dangos costau ariannol a chymdeithasol peidio â chymryd yr ymagwedd gyfannol ac ataliol hon at fywydau pobl. Felly, archwiliwch y cyfleoedd sydd eisoes ar gael wrth herio sut cyflwynir gwasanaethau ar hyn o bryd gyda'r amcan hwn fel ffocws a'r saith nod llesiant cenedlaethol fel arweiniad.

Mae llawer o bethau'n effeithio ar gyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc ac mae'n bwysig i'r BGC ddeall lle mae'n gallu cael yr effaith fwyaf. Er enghraifft, canfu adroddiad yn 2013 gan Ysgol Economeg Llundain ar gyfer Sefydliad Joseph Rowntree fod gan blant mewn teuluoedd ag incwm is ganlyniadau gwybyddol, ymddygiad-gymdeithasol ac iechyd gwaeth. Yn hanfodol, dangosodd yr astudiaeth ei fod yn rhannol am eu bod yn dlotach, nid am fod incwm is yn gydberthnasol â nodweddion aelwyd a magu plant eraill. Mae adroddiad 'Backing the Future' y New Economics Foundation yn tynnu sylw at y ffaith bod gennym rôl o ran mynd i'r afael â lles materol ac amgylchiadau allanol – megis tai, tlodi ac addysg – yn ogystal â lles seicolegol ac adnoddau mewnol, sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd naturiol rydym yn tyfu ynddo, cymunedau cysylltiedig, swyddi o safon ac iechyd. Mae'n rhaid i'ch ystyriaeth fod yn ehangach na'r hyn y gall gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar, addysg neu iechyd ei wneud. Mae hyn yn gysylltiedig â'ch amcan drafft ar leihau anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd, felly sut gall y BGC gydweithio ag eraill i wella lles economaidd teuluoedd ar draws y rhanbarth? Mae eich asesiad lles yn amlygu'r anghydraddoldeb a'r amddifadedd mewn rhannau o'r sir. Sut gellir canolbwyntio ar y cymunedau hyn yn arbennig? Os ydym yn gwybod erbyn i blant mewn rhai ardaloedd gyrraedd y dosbarth derbyn yn yr ysgol bod yr amgylchiadau lle maent yn byw eisoes yn effeithio ar eu lles, yna mae angen i ni ymyrryd yn llawer cynharach i ymateb i'r tueddiadau hyn.

Yn ogystal ag incwm, rydym yn gwybod bod iechyd mamau a theuluoedd yn cael effaith fawr ar fywyd plentyn, sy'n cysylltu â'ch amcanion eraill. Mae rhwng 10% ac 20% o fenywod yn datblygu problemau iechyd meddwl yn ystod beichiogrwydd neu o fewn blwyddyn i roi genedigaeth. Yr afiechydon hyn yw un o achosion arweiniol marwolaeth mamau yn ystod beichiogrwydd ac yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl rhoi genedigaeth. Er gwaethaf hyn, nid oes gan fenywod yn oddeutu hanner y DU unrhyw fynediad i wasanaethau iechyd meddwl amenedigol arbenigol ac, mewn ardaloedd daearyddol eraill, mae gwasanaethau'n annigonol. Mae ystyried effaith gwasanaethau fel hyn ar deuluoedd ifanc yn bwysig os ydych am gymryd ymagwedd ar draws sectorau. Mae'r prosiect 'Mums and Babies in Mind' yn Lloegr wedi rhoi ffocws i arweinwyr lleol greu llwybr ar draws y sectorau sy'n rhoi'r gefnogaeth gywir i famau newydd ar yr adeg gywir. Mae yna eisoes lawer o wasanaethau yn Abertawe â'r nod o leihau smygu, gordewdra a diffyg ymarfer corff ac rwyf eisoes

wedi'ch cynghori y byddai ystyried y ddeddf mewn perthynas â'r materion hyn yn eich cynorthwyo wrth werthuso effeithiolrwydd gwasanaethau, dathlu llwyddiant a rhannu dysgu, ond hefyd i sylweddoli lle mae angen gwelliannau o bosib.

Fel y dywedais, mae'r rhan fwyaf o BGC wedi nodi amcanion drafft sy'n gysylltiedig â'r blynyddoedd cynnar, rhoi dechrau da mewn bywyd i blant ac atal ACE gan gynnwys Cwm Taf, Caerffili, Ynys Môn a Gwynedd, Blaenau Gwent, Casnewydd a Chonwy/Sir Ddinbych.

- ***Amcan 3: Gweithio gyda natur – i wella iechyd, cyfoethogi bioamrywiaeth a lleihau ein hól troed carbon.***

Mae gan Abertawe amgylchedd naturiol hyfryd ac, fel rydych wedi'i nodi yn eich asesiad lles, mae'r manau gwyrdd, y traethau, yr afonydd a'r bywyd gwylt yn gwella lles meddyliol a chorfforol pobl yn ogystal â darparu adnoddau hanfodol ar gyfer preswylwyr ac ymwelwyr. Rydych yn amlwg wedi ystyried y tueddiadau tymor hir sy'n effeithio ar gydnerthedd ein hamgylchedd a byddwn yn eich cynghori i ystyried nawr pa gamau gweithredu y gallwch eu cymryd, fel arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus, i fwyafu eich cyfraniad at y nodau. Byd hyn yn cynnwys sut rydych yn cynllunio, yn dylunio ac yn lleoli datblygiadau, adeiladau, isadeiledd a manau cyhoeddus a chymunedol eraill yn y dyfodol (fel rhan o'ch Cynllun Datblygu Lleol a'ch gwaith gyda'r dinas-ranbarth). Beth gallwch chi ei wneud fel Prif Weithredwr, Cadeirydd neu Arweinydd nawr i liniaru effeithiau colli'r amgylchedd a bod yn fyw cyfrifol ar lefel fyd-eang? Sut gall eich polisïau caffael geisio cefnogi busnesau lleol a chanolbwyntio ar fwy na gwerth economaidd yn unig? Sut gallwch chi fod yn fwy cyfrifol ar lefel fyd-eang drwy gaffael cynnyrch organig, Masnach Deg a, lle bo'n bosib, leihau trafndiaeth yn unol â gwarchod eich amgylchedd? Mae [Forum for the Future](#) wedi cyhoeddi adroddiadau ar hyn ac mae fy swyddfa'n gweithio gyda [Gwerth Cymru](#) i dreialu ymagwedd newydd at gaffael yng nghyd-destun y ddeddf.

Er enghraifft, gall penderfyniadau a wneir gan sefydliadau'r sector cyhoeddus ynghylch isadeiledd effeithio ar allyriadau, ansawdd aer ac iechyd. Er bod y sector cyhoeddus yn gyfrifol am gyfran eithaf bach o allyriadau Cymru, rydych mewn sefyllfa unigryw i ddylanwadu ar allyriadau yn llawer mwy ehangach mewn meysydd megis trafndiaeth, ynni, defnydd o dir a chaffael. Awgryma [rhai astudiaethau](#) y gallai parhau i oedi ymdrechion i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr arwain at fil gwerth \$535 triliwn i bobl ifanc sy'n fyw heddiw a chenedlaethau'r dyfodol. Yn ddiweddar, [cyhoeddodd Llywodraeth Cymru](#) lefelau o allyriadau carbon wedi'u hisrannu yn ôl awdurdodau lleol a rhyddhaodd hefyd [Alwad am Dystiolaeth](#) i archwilio'r dulliau mwyaf effeithiol i gael sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030. Byddwch wedi cael eich gwahodd i ddigwyddiad rwy'n ei gynnal ar 9 Tachwedd, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i archwilio sut gall gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru gynnwys pobl wrth gydweithio ar eu gwaith a'i integreiddio, cymryd mwy o ystyriaeth o oblygiadau carbon tymor hir eu gweithgareddau, a helpu i atal effeithiau newid yn yr hinsawdd rhag gwaethygu.

Ar 2 Awst eleni, dechreuom ddefnyddio mwy o fyd natur na'r hyn y gall ein planed ei adnewyddu mewn blwyddyn gyfan. Ar hyn o bryd, rydym yn defnyddio [adnoddau gwerth 1.7 planed y flwyddyn](#). Mae adroddiad ['Making it Happen'](#) diweddar [Zero Carbon Britain](#) yn

nodi pa gyfrifoldebau sydd gan bob un ohonom i genedlaethau'r dyfodol i weithredu ar newid yn yr hinsawdd nawr. Rwy'n gwybod eich bod wedi bod yn ystyried senarios posib y dyfodol ar gyfer pob amcan a byddwn yn eich annog i feddwl am sut gall tueddiadau tymor hir effeithio ar bob agwedd ar les. Er enghraifft, beth yw cost economaidd ein hinsawdd newidiol ar Abertawe? Mae llawer yn dibynnu ar amaethyddiaeth a physgodfeydd, mae rhai o'ch cymunedau'n rhai arfordirol, mae twristiaeth yng Nghymru'n gwneud defnydd helaeth o'n hamgylchedd naturiol. Sut ydych chi wedi ystyried effaith tymor hir achosion o dywydd eithafol ar yr adnoddau hyn? Sut gallwch chi ddefnyddio senarios i ddychmygu pa gamau gweithredu ataliol y gallech eu cymryd i ddiogelu isadeiledd, amaethyddiaeth, cyflenwadau dŵr a thrafnidiaeth hanfodol mewn achos o dywydd eithafol? Amcangyfrif bod cost flynyddol ddisgwyliedig difrod i eiddo preswyl oherwydd llifogydd yn £22 miliwn, felly mae deall sut mae digwyddiadau tywydd gwahanol yn effeithio ar gymunedau daearyddol a demograffig gwahanol yn hanfodol i atal hyn. Mae llifogydd hefyd yn effeithio ar les corfforol a meddyliol pobl ymhell ar ôl y digwyddiad ei hun, sy'n anodd i'r rheiny yr effeithiwyd arnynt ac mae'n anochel y bydd hyn yn creu mwy o gostau i wasanaethau eraill.

Yn eich asesiad lles, rydych wedi nodi sut mae cymunedau'n gwerthfawrogi bod rheoli adnoddau naturiol yn gyfrifoldeb a rennir ac yr hoffent gael dweud eu dweud neu gael eu cynnwys. Sut allwch chi gynnwys cymunedau eu hunain i gyflawni'r amcan hwn? Yn gysylltiedig â'ch pedwerydd amcan, gall ennyn cyfranogiad pobl ynghylch lle ac achos cyffredin fod yn bwerus iawn. Gall cael pobl yn yr awyr agored gyda pheth gwybodaeth ac wedi'u grymuso i weithredu helpu i wneud yr amgylchedd lleol yn fwy cadarn. Sut allwch chi hwyluso hyn a, chan ddefnyddio diffiniadau'r saith nod llesiant, gael mwy o effaith? Mae gan NESTA arweiniad ar weithio gyda chymunedau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys y 'Big Green Challenge', lle newidodd cyfranogwyr eu ffordd o fyw i leihau eu hól troed carbon. Mae prosiectau fel 'GlawLif' Dŵr Cymru yn awgrymu ffordd y gall pob un ohonom liniaru effeithiau llifogydd, ac mae enghraifft eithafol yn cynnwys Ynys Eigg yn yr Alban lle mae'r gymuned yn cael effaith gadarnhaol ar ei hamgylchedd drwy gyflwyno cynlluniau ynni cymunedol adnewyddadwy, adeiladu busnesau cynaliadwy a gwella bioamrywiaeth.

Bydd cydweithio gyda busnesau wrth i chi gymryd camau i fodloni'r amcan hwn hefyd yn bwysig i warchod a gwella'r tir ac oedi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Prif achosion ansawdd aer gwael yw trefoli a datgoedwigo cysylltiedig, gweithgynhyrchu, diwydiant (yn enwedig llosgi tanwyddau ffosil) a lefelau traffig. Mae trafndiaeth ac ynni yn ddau o'r pethau mwyaf y gallwn ddylanwadu arnynt i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae llygryddion aer yn cael effaith sylweddol ar ein hiechyd, gan gynnwys cysylltiadau â chlefydau anadlol, canser a difrod i organau. Ar gyfer pob un o'ch camau, defnyddiwch ddiffiniadau'r nodau llesiant i feddwl am sut gallwch wneud rhywbeth yn wahanol i gael yr effaith fwyaf, a chwiliwch am ffordd i integreiddio ar draws lawer o'ch camau drafft. Er enghraifft, sut gallwch annog polisiau gweithio ystywyth gan felly leihau'r defnydd o geir? Mae rhai BGC eu hunain yn cyflwyno manau i wefru ceir trydan a cheir trydan a rennir yn eu sefydliadau i annog y newid hwn. Sut gallwch chi alluogi cyfleoedd gwirfoddoli corfforaethol sy'n ceisio gwella cydnherthedd yr amgylchedd naturiol? Fel yr wyf eisoes wedi'i nodi, mae sefydliadau eu hunain yn ystyried cyflwyno cynlluniau plannu coed, cadw gwenyn ac isadeiledd gwyrdd ar gyfer eu hystadau cyhoeddus yng Nghymru. Mae gan 'Busnes yn y Gymuned' amrywiaeth o ffordd ymarferol i fusnesau

weithio gyda'i gilydd a chymryd camau gweithredu i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r problemau amgylchedd a chymdeithasol allweddol sy'n wynebu cymdeithas.

Sut gallwch chi ddylanwadu ar waith y dinas-ranbarth yn hyn o beth? Mae'r adroddiad cau'r cylch ar yr economi gylchol ac amgylchedd Cymru gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru'n dangos cyfle economaidd posib o £1 biliwn ychwanegol y flwyddyn erbyn 2035 drwy ddefnyddio egwyddorion economi gylchol yn ymarferol ac mae'n rhoi enghreifftiau ymarferol lle gall y sector cyhoeddus ystyried lleihau gwastraff ac adnoddau mewn prosiectau yn y dyfodol. Dyma gynnydd o 12.5% yn nhrosiant sector amgylchedd adeiledig Cymru sy'n creu 7,300 o swyddi (gros). Mae gwefan Good Local Economies yn awgrymu sut gall sefydliadau cymunedol a rhai'r sector cyhoeddus weithio gyda'i gilydd i gael buddion niferus ar gyfer eu meysydd megis tai, ynni, caffael, cyllid ac economïau lleol.

Sut gall cynllunio isadeiledd hyrwyddo buddion ehangach, megis 'ffyrdd solar' yn creu trydan adnewyddadwy neu ffyrdd wedi'u creu o blastig wedi'i ailgylchu, megis y rhai sy'n cael eu treialu yn Rotterdam? Sut gellir cysylltu hyn â chreu mannau cymunedol gwyrdd, cysylltiedig i wella iechyd pobl? Cyfeirir at ddinas Freiburg yn aml fel enghraifft o ddatblygiad trefol sydd â chlodiant cyhoeddus a llesol wedi'u hintegreiddio wrth wraidd ei dyluniad. Heblaw am flaenoriaethu teithio llesol a chlodiant cyhoeddus cynaliadwy, fforddiadwy a dibynadwy, mae strategaeth osgoi traffig yn golygu dinas â phellterau byr lle nad oes rhaid i bobl deithio ymhell i ddiwallu eu hanghenion. Adnodd rhyngweithiol ar gyfer creu lleoedd cymunedol yw'r rhaglen Llunio fy Nhref gan Gomisiwn Dylunio Cymru sy'n eich ysgogi i ystyried rhai o'r posibilïadau hyn.

Mae gennych hefyd swm helaeth o ystâd cyhoeddus a dylech ystyried ei effeithlonrwydd, yn ogystal â sut gall adeiladau ac amgylchiadau effeithio ar les. Mae adroddiad yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt yng Nghymru ar isadeiledd gwyrdd yn amlinellu sut mae isadeiledd gwyrdd yn cyflwyno ystod eang o fuddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol profedig, pendant a chost-ffeithiol. Hefyd, mae gan Gomisiwn Dylunio Cymru astudiaethau achos ac adnoddau ar ddylunio sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr, yn mwyafu effeithlonrwydd ynni ac sydd wedi'i brofi i wella adferiad iechyd cleifion yn sylweddol. Ym mhob un o'r meysydd hyn, gall fy swyddfa eich cysylltu â'r bobl a'r sefydliadau hyn a allai eich cynorthwyo wrth i chi ddatblygu'ch gwaith.

Mae'r DU wedi addo gwaredu allyriadau erbyn 2050 ac mae Llywodraeth Cymru wedi addo creu mwy o swyddi gwyrdd. Ond er bod Cymru'n lle â llawer o botensial i ddarparu ynni naturiol, dim ond 10% o drydan Cymru yn 2013 a ddarparwyd drwy ynni adnewyddadwy. Mae angen i'r BGC ymgysylltu â phrosiectau, megis y morlyn llanw, i ddeall yr effeithiau a'r manteision niferus. Ydych chi wedi ystyried potensial ynni adnewyddadwy arall fel BGC? Y llynedd, lluniodd Pwyllgor Amgylchedd a Chynladwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru 'Dyfodol Ynni Craffach i Gymru', gyda 19 o argymhellion ar gyfer sut gallai Cymru drawsnewid ei hymagwedd at ynni. Yn ddiweddarach, lluniodd Smart Energy GB adroddiad ar 'A Smart Energy Future for Rural Areas' gan roi enghreifftiau ac astudiaethau achos o ardaloedd gwledig ledled y DU sy'n gwneud y newid hwnnw. Cynhelir prif seminar Fforwm Polisi Cymru ar 7 Rhagfyr eleni, gyda ffocws ar flaenoriaethau ar gyfer polisi ynni, datblygu'r sector yng Nghymru a chynyddu buddsoddi mewn ffynonellau adnewyddadwy.

Awgryma tystiolaeth fod galluogi pobl i wneud dewisiadau iach yn gysylltiedig â'u statws economaidd, eu hamgylchedd a sut maent yn cysylltu ag eraill. Rydych wedi cydnabod y cysylltiad hwn yn eich cynllun lles drafft, felly cymerwch gamau gweithredu i gyfrannu at Gymru fwy cydnerth wrth gyfrannu at y nodau eraill hefyd. Sut gall gwella lles staff gael effeithiau ehangach ar yr amgylchedd naturiol? Cydweithio â sefydliadau eraill i archwilio'r cysylltiadau hyn yw diben y BGC. Fel rwy'n siŵr rydych wedi sylweddoli, mae cyfleoedd i chi weithio gyda sefydliadau megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt i ddatblygu ymagwedd sir gyfan. Mae prosiect 'Coed Actif' Cyfoeth Naturiol Cymru yn enghraifft o sut gellir annog pobl i fynd allan i'r awyr agored, gwarchod eu hamgylchedd a mwynhau'r effeithiau cadarnhaol ar eu hiechyd a'u lles. Mae mwy a mwy o ffyrdd gwahanol o wella lles yn dod i'r amlwg ac mae'r astudiaeth hon ar ragnodi cymdeithasol ym Mryste yn rhoi gwybodaeth am fodlau gwahanol a pheth mewnwelediad i'r gwelliannau o ran iechyd meddwl ac iechyd corfforol cyffredinol. Yn y rhaglen ddogfen ddiweddar gan y BBC, 'The doctor who gave up drugs', gwelwyd sawl enghraifft o sut gall ymagweddau gwahanol (yn lle rhagnodi tabledi) gael effaith fwy cyfannol, parhaol a chadarnhaol ar fywyd rhywun, gyda phobl yn dod yn fwy heini'n gorfforol ac yn iachach yn feddyliol heb orfod dibynnu ar ragnodion. Ymagwedd ataliol yw hon yn ei hanfod, fel y mae Prifysgol Essex wedi'i ddangos mewn ymchwil i wirfoddoli gyda'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt - gwelwyd bod iechyd meddwl y cyfranogwyr wedi gwella ar ôl tri mis. Gallai cydweithio â sefydliadau gwahanol i ddeall a gwerthuso'r dulliau hyn gael effaith drawsnewidiol ar ein hymagweddau presennol at iechyd.

Mae llawer o BGC yn ymdrechu i warchod eu hamgylchedd, gan gynnwys Blaenau Gwent, Caerffili, Bro Morgannwg, Powys, Sir Gâr a Cheredigion.

- ***Amcan 4: Cymunedau cryf – grymuso cymunedau gan hyrwyddo balchder ac ymdeimlad o berthyn.***

Mae'n ddyhead ystyrlon i gael Abertawe fywiog, goddefgar a chroesawgar lle mae cenedlaethau'r dyfodol yn cael mynediad cyfartal i gyfleoedd bywyd ac yn ymfalchïo yn eu dinas. Byddai cyflawni rhai o'ch amcanion drafft eraill yn amlwg yn cyfrannu at y weledigaeth hon a theimlaf fod y newid hwn heb os yn dechrau gyda chi. Fel y dywedais yn rhan gyntaf y llythyr hwn, mae'r ffordd rydych chi'n gweithio gyda'ch gilydd ac yn cyflwyno gwasanaethau'n treiddio i lawr i drigolion Abertawe yn y pen draw – drwy eich gweithlu, eich polisïau, eich penderfyniadau a'ch agweddau. Byddai creu gweledigaeth a rennir o'r dyfodol ac ymdeimlad o berthyn yn eich galluogi i symud ymlaen gyda'ch gilydd a gwella lles ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Fel y cynghorais yn fy ymateb i'ch asesiad lles, wrth wneud unrhyw beth fel BGC rhaid iddo fod yng nghyd-destun ble a sut mae pobl yn byw. Sut y nodir gwahaniaethau ar draws cymunedau'n Abertawe? Beth y mae hyn yn ei olygu i les pobl? Dechreuoch archwilio hyn yn ystod eich asesiad lles ac, i gymryd camau i fodloni'ch holl amcanion, dylech barhau i archwilio'r data a'r rhesymau posib dros faterion y tu ôl i'r data. Y ffordd orau i ddatblygu'ch

dealltwriaeth o gymunedau yw trwy brofiadau bywyd go iawn y bobl sy'n byw yno. Mae cynnwys eich staff, mynd hwnt ac yma i siarad â phobl a chydweithio â nhw i gyflwyno prosiectau'n ffordd o ennill ymddiriedaeth cymunedau a gweld canlyniadau cadarnhaol. Rwy'n cynghori pob un o'ch sefydliadau i ymrwymo i'r Safonau Cyfranogi Cenedlaethol a, chan nad yw'r mwyafrif ohonom yn meddu ar y sgiliau i gynnwys ystod o bobl mewn modd ystyrlon, efallai yr hoffech gysylltu â Cyfranogaeth Cymru sy'n gallu cefnogi'ch swyddogion i ennill y sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer cynnwys effeithiol ac ystyrlon. Gallai Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru eich helpu i ystyried cynlluniau bancio amser, darparu enghreifftiau o gyd-gynhyrchu da a'ch helpu i nodi a chynnwys arweinwyr cymunedol.

Yn lleol, sut gall plant a phobl ifanc, ysgolion, colegau, Cynghorau Tref a Chymuned a'r trydydd sector chwarae rôl bwysig wrth gysylltu pobl? Sut caiff lleisiau gwahanol eu cynrychioli yn y BGC? Lluniodd CGGC wybodaeth ehangach am sut gall y trydydd sector chwarae rôl wrth gyfrannu at y ddeddf, gan gynnwys adnoddau ar gyfer y saith nod llesiant. Sut mae, neu fydd, asedau'r ardal wedi/yn cael eu harchwilio y tu hwnt i'r gwasanaethau cyhoeddus sydd eisoes yn bodoli a mwy am galon ac enaid y gymuned? Mae'r astudiaeth 'Deep Place' yn Nhredeg ar Ganolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru yn rhoi tystiolaeth ar sut gall dealltwriaeth o le gael manteision niferus ar gyfer lles. Gall rhoi'r anogaeth fach honno i gymunedau drwy, er enghraifft, gynlluniau sy'n gwobrwyo gwirfoddoli neu grantiau bach i greu mannau cymunedol deniadol, arwain at ganlyniadau llawer mwy, fel a welir yn y gwaith y mae 'Nurture Development' yn ei wneud gyda datblygu cymunedol yn seiliedig ar asedau. Mae gwaith tebyg eisoes yn cael ei wneud drwy'r Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau a ariennir gan y Loteri Fawr yng Nghymru. Efallai nad ydych yn gwybod pwy yw'r arweinwyr a'r cysylltwyr cymunedol posib mewn rhai ardaloedd felly, os ydych yn ymrwymedig i hyn, dylech addasu dibenion eich adnoddau i wneud mwy o waith mewn cymunedau, i ddechrau adnabod lle fel y mae'r bobl sy'n byw yno yn ei adnabod.

Fel gydag ardaloedd eraill yng Nghymru, mae anghydraddoldebau o ran iechyd, cyfoeth a mynediad i amwynderau, gan gynnwys mannau gwyrdd a nodwyd yn eich asesiad. Rwyf wedi siarad yn rheolaidd am y diffyg dealltwriaeth sydd gennym ni fel gwasanaethau cyhoeddus o brofiadau bywyd pobl. Nid yw llawer o bobl yn ystyried eu bod yn 'ddifreintiedig' neu 'mewn tloidi' ac mae hyn yn cysylltu â fy nghyngor ar eich amcan i sicrhau'r dechrau gorau mewn bywyd. Fel gwasanaethau cyhoeddus, mae angen i ni gymryd ymagwedd fwy dynol at ddarparu gwasanaethau ac mae'r ddeddf (a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant) yn cynnig 'lens synnwyr cyffredin' ar gyfer gwneud hyn. Yn yr adroddiad 'Dying from Inequality' diweddar gan y Samariaid, amlygwyd y peryglon cynyddol o hunanladdiad i'r rheiny mewn swyddi â sgiliau is sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig. Gellir nodi llawer ar oed cynnar, gan fod mwy o berygl gyda'r rheiny â chyrhaeddiad addysgol isel yn aml, sy'n cysylltu â'ch amcan cyntaf o ran rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant a phobl ifanc. Mae'r erthygl hon gan The Guardian 'Why poor people don't plan long-term' yn rhoi mewnwelediad i'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu i oresgyn anghydraddoldeb a sut cânt eu hesgeuluso'n aml. Mae eich BGC cyfagos, Pen-y-bont ar Ogwr, yn edrych ar sut mae tloidi'n effeithio ar rannau gwahanol o'r

boblogaeth a theimlaf y byddai o fudd i chi. Mae adroddiad y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol - '[Poverty, Place and Inequality](#)' - yn cynnwys sawl argymhelliad o ran pam mae ymagweddau'n seiliedig ar le yn allweddol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng cymunedau ac ynddynt.

Fel arweinwyr asiantaethau lleol, mae gennych rôl allweddol i'w chwarae wrth hyrwyddo a chefnogi cydlyniant cymunedol. Mae potensial eich rôl yn y maes hwn yn mynd y tu hwnt i adeiladu gallu cymunedol drwy hwyluso rhwydweithio a chydlynu a darparu hyfforddiant ar gyfer grwpiau cymunedol a gweithwyr. Dim ond hyn a hyn y gall yr agweddau hyn ar gefnogaeth gymunedol ei wneud o ran datrys y problemau y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu. Sut ydych chi'n mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau systemig sy'n atal pobl, cymunedau a gweithwyr rhag defnyddio eu hyfforddiant neu eu gwybodaeth, neu sy'n eu hatal rhag cael mynediad i wasanaethau sy'n gallu helpu? Ydych chi wedi ystyried sut gallech ddiwygio gwasanaethau presennol fel y gallent gyflwyno ymagwedd ataliol - atal problemau fel ACE cyn iddynt ddigwydd - drwy gomisiynu'r gwasanaethau hyn yn wahanol? Mae'r gwaith ymchwil a drafodir yn '[What Works in Community Cohesion](#)' yn darparu deunydd cyfeirio defnyddiol i BGC ar ddimensiynau gwahanol cydlyniant cymunedol.

Mae cais Dinas Diwylliant 2021 yn gyfle cyffrous i'ch dinas a, fel gyda'r dinas-ranbarth, gall defnyddio'r saith nod llesiant eich helpu i weld sut gallai pawb elwa o'r buddsoddiad. Fel ysgogydd ar gyfer adfywio a thwf economaidd, mae'n rheswm dros wella cydraddoldeb ar draws y ddinas ac i ddod â phobl ynghyd gyda rhywbeth sydd o bwys iddynt. Gall diwylliant, chwaraeon ac iaith fod yn hynod bwyrus wrth ddod â grwpiau amrywiol o bobl ynghyd i rannu nod cyffredin ac i greu ymdeimlad o berthyn. Mae Chwaraeon Cymru yn awyddus i weithio gyda BGC ar sut gallant fwyafu eu cyfraniad i'r saith nod llesiant. Gallai [strategaeth Cyngor Celfyddydau Cymru](#), sy'n amlinellu rhai o'r buddion y gall cymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol eu cael ar iechyd, cydlyniant a sgiliau'r boblogaeth, eich helpu i sylweddoli sut gall prosiectau gael buddion niferus i'ch sefydliadau. Mae'r [Cultural Commissioning Programme](#) a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Lloegr yn ceisio helpu comisiynwyr gwasanaethau cyhoeddus i ddeall sut gallant wella canlyniadau drwy integreiddio gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol mewn ystod o wasanaethau, gan gynnwys iechyd meddwl a lles, pobl hŷn a chomisiynu'n seiliedig ar leoedd. Yn ogystal â hyn, '[Cymraeg 2050](#)' yw ein gweledigaeth gyffredin ar gyfer datblygu'r Gymraeg. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Alun Davies AC [gyllid ar gyfer busnesau bach dwyieithog sy'n tyfu](#) er mwyn cynyddu gwelededd y Gymraeg yn ein cymunedau. Allwch chi gysylltu'r mentrau hyn fel BGC?

Sut ydych chi'n ystyried sut gallai pobl fod eisiau cyfrannu at eu cymunedau yn y dyfodol? Mae'r adroddiad diweddar hwn, [Digital Childhoods](#) gan Barnados, yn dangos pa mor gyflym y mae technoleg yn symud a'r ffordd y mae plant bellach yn defnyddio gwybodaeth. Sut mae eich sefydliadau'n manteisio ar bŵer technoleg i'ch helpu i gyflawni'r amcan hwn? Ar hyn o bryd, dengys ymchwil fod plant rhwng 5 ac 16 oed yn treulio chwe awr a hanner y dydd o flaen sgrîn ar gyfartaledd; mae [28% o bobl ifanc yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol](#) fel eu prif ffynhonnell newyddion; caiff [43% o 'milflwyddwyr' eu hannog i wneud cyfraniadau ariannol drwy sianeli cymdeithasol](#). Pa fath o newidiadau y bydd angen i chi eu gwneud i'ch systemau a'ch polisïau sefydliadol i alluogi pobl i gymryd mwy o ran mewn cymunedau a dylanwadu ar wasanaethau lleol? Mae cyfle go iawn i gynnwys pobl yn y ffordd sydd fwyaf cyfleus iddyn nhw ac sy'n rhan o'u bywyd

dyddiol, nid yn dasg ychwanegol. Mae "Monmouthshire Made Open" yn enghraifft o lwyfan ar-lein sydd wedi rhagweld sut gallai pobl gyfrannu at wella eu hardal yn y dyfodol, gyda chyfleoedd i rannu syniadau, holi'r gymuned, dechrau prosiect a chwilio am wirfoddolwyr neu adnoddau. Gallai Matthew Gatehouse, sy'n gweithio gyda BGC Sir Fynwy, rannu'r hyn y mae'r bwrdd wedi'i ddysgu â chi ynglŷn â sefydlu'r wefan hon.

Mae nifer o BGC yn llunio amcanion i annog cymunedau mwy diogel, cydlynol a chysylltiedig, gan gynnwys Sir y Fflint, Caerdydd, Bro Morgannwg, Casnewydd, Powys, Cwm Taf a Sir Fynwy.

Gobeithiaf fod y cyngor hwn wedi bod o fudd i chi wrth symud ymlaen tuag at gyhoeddi cynllun lles ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol. Cysylltwch â fy nhîm os oes angen manylion cyswllt pellach arnoch ar gyfer unrhyw un o'r sefydliadau a'r adroddiadau y cyfeiriwyd atynt yn y llythyr hwn.

Rwyf hefyd yn dysgu'r ffyrdd gorau o gynghori, cefnogi a monitro sut mae cyrff cyhoeddus yn ceisio defnyddio'r pum ffordd o weithio a mwyafu eu cyfraniad i'r saith nod llesiant, felly byddwn yn croesawu unrhyw adborth gennych chi, eich swyddogion cefnogi a Phwyllgor Craffu BGC Abertawe o ran sut rwyf wedi dewis ymdrin â'r ddyletswydd statudol hon a'r cyngor rwyf wedi'i roi.

Edrychaf ymlaen at dderbyn fersiynau diweddarach o'ch cynllun lles a gofynnaf i chi gadw mewn cysylltiad â mi a'm tîm.

Cofion cynnes,

Sophie Howe